**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO - DYDD MERCHER, 18 HYDREF 2023 DYDD MERCHER, 18 HYDREF 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. ABSALOM (CADEIRYDD)

Councillors S. Behr (Is-gadeirydd)
D. Bevan
K. Chaplin
W. Hodgins
C. Smith

WITH: Prif Weithredwr Interim
Prif Swyddog Adnoddau
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant Phartneriaethau
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Chomsiynu
Rheolwr Gwasanaeth – Cofrestru, Etholiadau a Chwynion Corfforaethol
Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd
Uwch Bartner Busnes – Cyfrifeg Cyfalaf a Chorfforaethol
Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant

A: **Yn cynrycholi Archwilio Cymru**
Mr. Mike Jones

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na chafwyd unrhyw gais ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br><br>Cynghorydd Joanna Wilkins, Mr. Martin Veale, Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid, Rheolwr Archwilio a Risg, Arweinydd Proffesiynol – Archwilio Mewnol a Deborah Woods – Archwilio Cymru. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>TREFN EITEMAU AGENDA</u>**<br><br>Cytunwyd y caiff yr eitemau dilynol eu hystyried ar y pwynt hwn yn y cyfarfod:<br><br>Eitem Rhif 8 – Datganiad Cyfrifon 2021/2022<br>Eitem Rhif 7 – Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022/2023. | |
| **No. 5** | **<u>DATGANIAD CYFRIFON 2021/22</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiadau Prif Swyddog Adnoddau ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef ar ôl ystyried yr adroddiad ynghyd ag adroddiad yr Archwilydd Allanol, i gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon dan awdurdod dirprwyedig y Cyngor. | |
| **No. 6** | **<u>LLYTHYR BLYNYDDOL 2022/2023 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU</u>**<br><br>Ystyriodd aelodau yr adroddiad a'r Pennaeth Cydymffurfiaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef y rhoddwyd sicrwydd fod y broses ar gyfer monitro cwynion yn gadarn a bod yr wybodaeth perfformiad a roddwyd yn adlewyrchu'r arferion hyn. | |
| **No. 7** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a gyflwynwyd ar 20 Medi 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y penderfyniadau fel cofnod gywir o drafodion. | |
| **No. 8** | **DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y Ddalen Weithredu. | |
| **No. 9** | **BLAENRAGLEN GWAITH 2023-24**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Blaenraglen Gwaith arfaethedig 2023/2024.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y Flaenraglen Gwaith. | |
| **No. 10** | **ARCHWILIO CYMRU: TALIADAU UNIONGYRCHOL AM OFAL CYMDEITHASOL OEDOLION**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai Ymateb Rheoli y Cyngor a ddynodir yn Atodiad 2 yn ymateb yn briodol i argymhellion Archwilio Cymru. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 11** | **HUNANASESIAD 2022/23 CYNGOR BLAENAU GWENT**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Weithredwr Interim.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwywyd Opsiwn 1, sef rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod Hunanasesiad 2022/2023 yn gyfrif cywir o effeithlonrwydd trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. | |
| **No. 12** | **ADRODDIAD BUDD CYHOEDDUS – CANFYDDIADAU ADOLYGIAD SICRWYDD**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Democratiaeth, Llywodraethiant a Pherfformiad.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi canfyddiadau'r Adolygiad Sicrwydd a chytuno ar yr argymhellion a amlinellir isod:<br><br>• Dynodi Swyddog Cyswllt o fewn y Cyngor i sefydlu cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gydag Archifau Gwent ac Amlosgfa Gwent erbyn diwedd mis Mawrth 2024.<br><br>• Trefnu Sesiwn Wybodaeth i Aelodau ar weithrediadau a gwasanaethau a ddarperir gan Archifau Gwent ac Amlosgfa Gwent erbyn diwedd Mawrth 2024.<br><br>• Pob dogfen strategol berthnasol, cynllun busnes blynyddol a chyfrifon ar gyfer Archifau Gwent ac Amlosgfa Gwent i gael eu cynnwys yn y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer 2024-25, a'r Cyngor lle'n berthnasol, o leiaf ddwywaith y flwyddyn.<br><br>• Datblygu'r Cylch Gorchwyl yn 'becyn cymorth llywodraethiant' i'w ddefnyddio gan swyddogion ar draws y Cyngor i roi sicrwydd ar gwmnïau presennol a sefydlu unrhyw rai newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2024. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 13** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETHIANT GWYBODAETH</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad sy'n rhoi sicrwydd fod trosolwg a monitro priodol yn digwydd a bod mesurau rheoli priodol yn eu lle ar gyfer unrhyw ddiffyg i wneud y gwelliannau angenrheidiol. | |